

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Meddygfa Llys Meddyg,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 10/04/17

Dyddiad cyhoeddi: 11/07/17

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a ganfuom.....	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Llys Meddyg, 23 Stryd y Castell, Conwy, LL23 8AY, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 10 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, ac adolygydd lleyg.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddyg teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â phob Safon Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd pobl wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff
- Roedd trefniadau ar waith yn y practis i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion
- Roedd y tîm staff yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion
- Roedd prosesau rhagnodi meddyginiaethau diogel ar waith
- Roedd system gadarn ar waith ar gyfer cyfathrebu mewnol i sicrhau nad oedd unrhyw oedi diangen wrth brosesu atgyfeiriadau, gohebiaeth a chanlyniadau profion.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid adolygu gwefan y practis a'r daflen i gleifion
- Dylid sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion
- Roedd angen ffurfioli'r prosesau llywodraethu clinigol ac archwilio
- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau o ran practisau a reolir, ac ystyried a oes angen gwahanu'r swyddi comisiynydd a darparwr gwasanaethau gofal sylfaenol, ac ar yr un pryd, sicrhau bod adnoddau teg yn cael eu sicrhau ar gyfer y ddwy swyddogaeth
- Dylid ffurfioli a chofnodi cyfarfodydd meddygon teulu ac adolygiadau gan gymheiriaid
- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu cynllun datblygu'r practis

- Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Roedd Llys Meddyg yn darparu gwasanaethau i tua 3,700 o gleifion yn ardal Conwy. Mae'r practis wedi cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers mis Tachwedd 2016.

Roedd y practis yn cyflogi tîm o staff a oedd yn cynnwys tri meddyg teulu, rheolwr practis, dwy nyrs bractis, cynorthwydd gofal iechyd, a chwe aelod o staff derbynfa. Cafodd y rheolwr practis ei recriwtio'n ddiweddar a dechreuodd weithio yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Mân anhwylderau a damweiniau
- Gofal clwyfau a gorchuddion
- Gwiriadau monitro pwysedd gwaed
- Profion ceg y groth
- Cynllunio teulu
- Clinigau clefyd cronig (clinig diabetes/anadlol/clefyd y galon, ac ati)
- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Chwistrellu clustiau
- HRT a menapos
- Imiwneiddio/cyngor teithio
- Rhewdriniaeth (hylif nitrogen)
- Archwiliadau blynyddol ar gyfer pobl dros 75 oed

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dyweddodd pobl wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff. Roedd gan y practis system ar waith i alluogi cleifion i leisio pryderon/cwynion, ac roedd y practis yn gallu dangos ei fod wedi ystyried adborth cleifion i wella gwasanaethau.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion, yn enwedig ynglŷn â'u perthnasau â'r staff.

Cadw'n iach

Dyweddodd cleifion wrthym fod y staff yn siarad â nhw ac yn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol.

Canfuom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu hiechyd eu hunain trwy gael cyngor ar hyrwyddo iechyd gan staff a gwybodaeth ysgrifenedig yn y manau aros, ar y wefan, ac yn rhannu wybodaeth y practis.

Rhoddwyd cyngor a gwybodaeth i bobl â chyfrifoldebau gofalu am sefydliadau a gwasanaethau eraill a allai ddarparu cefnogaeth ar eu cyfer, megis Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Conwy. Nid oedd hyrwyddwr gofalmwr dynodedig ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr practis a oedd newydd ei benodi yn cymryd cyfrifoldeb am hyn.

Roedd yr amgylchedd materol wedi cael ei addasu gymaint ag yr oedd modd i gadw cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion. Roedd y dderbynfa wedi'i gwahanu oddi wrth yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu bod staff y dderbynfa'n gallu siarad â chleifion a gwneud galwadau ffôn heb gael eu clywed, a thrwy hynny, roedd modd cadw rhywfaint o breifatrwydd a chyfrinachedd. Yn ogystal â hyn, dywedodd staff y dderbynfa wrthym eu bod hefyd yn gallu defnyddio un o'r ystafelloedd ymgynghori preifat, pe bai ar gael, i drafod unrhyw faterion sensitif â chleifion pe bai angen.

Roedd polisi ysgrifenedig ar y defnydd o hebryngwyr ac roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol. Roedd yr hawl i wneud cais am hebryngwr wedi'i

arddangos ar bosteri yn ardaloedd y cleifion ac mewn ystafelloedd ymgynghori/triniaeth.

Roedd y practis yn rhan o grŵp 'clwstwr'¹ lleol oedd yn cynnwys naw practis. Fodd bynnag, yn achlysurol yr ymgysylltwyd â'r grŵp clwstwr yn ddiweddar oherwydd y newidiadau o ran cyfrifoldebau rheoli yn y practis. Rhagwelwyd y byddai'r ymgysylltiad â'r grŵp clwstwr yn gwella o hyn ymlaen gan fod rheolwr practis wedi'i benodi. Roedd gwasanaethau ffisiotherapydd a nyrs ddiabetig arbenigol wedi'u sicrhau trwy'r clwstwr, a hynny yn wythnosol ac yn fisol yn y drefn honno. Roedd y grŵp clwstwr hefyd yn ariannu cwrs rhagnodi i staff y practis a gwasanaeth therapi wedi'i gynllunio i roi cymorth tymor byr i bobl oedd yn wynebu problemau iechyd meddwl neu ddigwyddiadau bywyd heriol.

Gofal ag urddas

Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod y staff yn cyfarch pobl mewn modd proffesiynol ond cyfeillgar wrth ddesg y dderbynfa, ac yn ystod sgysiau ffôn.

Roedd drysau ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd staff yn ymdrin â chleifion. Roedd sgriniau wedi'u gosod o gwmpas gwelyau archwilio hefyd. Roedd hyn yn golygu bod staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau.

Gwybodaeth am gleifion

Roedd gwybodaeth i gleifion am wasanaethau'r practis ar gael ar ffurf taflen ac ar wefan y practis. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys manylion tîm y practis, oriau agor, trefniadau tu allan i oriau, system apwyntiadau, a'r weithdrefn ar gyfer caffael presgripsiynau amlroddadwy. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau i adolygu a diweddarau'r wefan a thaflen y

1 Mae clwstwr practisau yn grŵp o feddygon teulu a phractisau, a bennir yn lleol gan fwrdd iechyd lleol unigol y GIG yng Nghymru. Maent yn dod â phractisau meddygon teulu, gwasanaethau nyrsio ardal ac eiddilwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a chymunedol, a'r sector gwirfoddol at ei gilydd.

practis i gynnwys mwy o wybodaeth am hybu iechyd ac i adlewyrchu'r newidiadau yn y tîm staff.

Roedd amrediad o wybodaeth wedi'i harddangos ac yn hawdd ei chyrraedd yn y man aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol a chyingor ar hybu iechyd a hunanreoli cyflyrau iechyd. Roedd bwrdd neilltuedig yn dangos gwybodaeth yn benodol i ofalwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid adolygu gwefan y practis a'r daflen i gleifion er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth am hybu iechyd ac i adlewyrchu'r newidiadau yn y tîm staff.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym fod nifer o siaradwyr Cymraeg wedi'u cofrestru â'r feddygfa a bod dau aelod staff cyfredol yn siarad Cymraeg. Canfuom fod gwybodaeth (posteri a thafenni) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac y gellid cael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar gyfer pobl a oedd angen gwybodaeth neu wasanaethau mewn ieithoedd eraill.

Roedd dolen sain yn y practis, a ddefnyddid gan staff i hwyluso cyfathrebu â'r cleifion hynny ag anawsterau clywed, ac roedd cardiau adnabod ar gael i gleifion eu cwblhau i nodi bod angen cymorth ychwanegol arnynt oherwydd problemau clyw.

Gofal amserol

Roedd modd i gleifion wneud apwyntiadau o ddydd Llun i ddydd Gwener hyd at bedair wythnos ymlaen llaw, neu ffonio'r feddygfa neu alw i mewn o 8.30am ymlaen, i gael apwyntiad ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Nid oedd cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael. Awgrymwn y dylai'r practis annog cleifion i gofrestru a defnyddio Fy Iechyd Ar-lein,² gan nodi aelod(au) o staff i hyrwyddo'r gwasanaeth. Byddai hyn yn helpu i ysgafnhau'r pwysau o ran trefnu apwyntiadau ar y ffôn.

² <https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mhol/home.jsp>

Roedd y tîm nyrsio'n gweld cleifion gyda mân salwch neu salwch cyffredinol. Roedd y tîm nyrsio hefyd yn cynnal nifer o glinigau i gleifion â chyflyrau iechyd cronig er mwyn iddynt gael y gofal a'r driniaeth roedd eu hangen arnynt heb orfod gweld meddyg.

Canfuom fod atgyfeiriadau i arbenigwyr eraill yn cael eu gwneud yn brydlon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis annog cleifion i gofrestru a defnyddio Fy Iechyd Ar-lein, gan nodi aelod(au) o staff i hyrwyddo'r gwasanaeth. Byddai hyn yn helpu i ysgafnhau'r pwysau o ran trefnu apwyntiadau ar y ffôn.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda ac yn gwneud addasiadau yn ôl anghenion unigol pobl, ar sail y wybodaeth hon.

Roedd y practis wedi'i leoli mewn tŷ tref wedi'i addasu. Ychydig o gymorth oedd ar gael i bobl anabl allu cael mynediad i'r adeilad. Roedd rampiau cludadwy ar gael fel bod modd i ddefnyddwyr cadair olwyn gael mynediad i'r adeilad. Dywedwyd wrthym y byddai'n anodd gwneud gwelliannau i'r fynedfa oherwydd bod yr adeilad yn adeilad rhestredig Gradd 2.

Nid oedd maes parcio yn gysylltiedig â'r practis. Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd parcio cyhoeddus gerllaw a lle parcio i'r anabl ar y stryd gyferbyn â'r feddygfa.

Roedd yr ystafelloedd ymgynghori meddygon teulu ar y llawr cyntaf. Fodd bynnag, roedd modd gwneud trefniadau i gleifion gael eu gweld yn ystafelloedd ymgynghori'r nyrs neu'r cynorthwydd gofal iechyd ar y llawr gwaelod os oedd angen.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i wneud gwasanaethau'n hygyrch i gleifion â gwahanol anghenion a gofynion iaith, fel y disgrifir uchod.

Dywedodd staff mai anaml y byddai cleifion yn gofyn am iaith ar wahân i'r Saesneg. Fodd bynnag, pe bai cleifion nad oeddent yn siarad Saesneg yn dod i'r practis yna byddai gan y staff fynediad at wasanaethau cyfieithu. Dywedodd

y staff hefyd fod cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg fel arfer yn mynychu yng nghwmni perthnasau sy'n gallu cyfieithu sgysiau.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'.³ Roedd gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cwyn yn cael ei dangos yn yr ystafell aros/derbynfa ac roedd hefyd yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd taflenni gwybodaeth a phosteri 'Gweithio i Wella' ar gael yn y dderbynfa/man aros hefyd.

Rhoddir pwyslais ar ymdrin â chwynion yn llygad y ffynnon er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl ac osgoi unrhyw angen am uwchgyfeirio. Mae pob cwyn yn cael ei chofnodi boed yn gŵyn a dderbyniwyd ar lafar neu'n ysgrifenedig. Tynnir sylw rheolwr y practis at bob cwyn a bydd yn ymdrin â phob cwyn yn unol â pholisi cwynion y practis.

Roedd blwch yng nghyntedd y brif fynedfa i bobl bostio sylwadau neu bryderon am y gwasanaeth.

Dylai'r practis ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion fel modd ychwanegol o gasglu adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Gallai hyn weithredu hefyd fel system ar gyfer rhannu gwybodaeth am gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion fel modd ychwanegol o gasglu adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Gallai hyn weithredu hefyd fel system ar gyfer rhannu gwybodaeth am gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

³ Mae Gweithio i Wella yn broses ar gyfer ymdrin â chwynion, hawliadau a digwyddiadau, a elwir gyda'i gilydd yn 'bryderon'. Mae hyn yn cynrychioli cryn newid diwylliant i'r GIG yng Nghymru yn y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o'u lle, gan gyflwyno dull unigol a chyson ar gyfer graddio ac ymchwilio i bryderon, yn ogystal â mwy o dryloywder, a mwy o gysylltiad â'r unigolyn sy'n lleisio'r pryder.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Canfuom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'w cleifion.

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi'n ddiogel ac i ddysgu o unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu o safon dda.

Roedd system gadarn ar waith ar gyfer cyfathrebu mewnol i sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth brosesu atgyfeiriadau, gohebiaeth a chanlyniadau profion.

Roedd polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant yn y pwnc hwn.

Mae asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal, a rhoddwyd camau gweithredu ar waith ar gyfer unrhyw feysydd y nodwyd bod angen sylw arnynt.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Yn ystod taith o gwmpas adeilad y practis, canfuom fod yr holl fannau yr oedd gan y cleifion fynediad atynt yn lân ac yn glir o annibendod, a oedd yn lleihau'r perygl o faglu neu syrthio. Roedd adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n addas – y tu allan a'r tu mewn.

Roedd asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol wedi'u cynnal ym mis Tachwedd 2016, pan ysgwyddo'r bwrdd iechyd y cyfrifoldeb am reoli'r practis.

Nid oedd yn glir pwy fyddai'n cynnal asesiadau risg yn y dyfodol, h.y. staff y practis, neu staff y bwrdd iechyd.

Canfuom nad oedd y gorchuddion llawr a'r gwelyau archwilio yn rhai o'r ystafelloedd ymgynghori'n addas, a dywedwyd wrthym fod hyn eisoes wedi'i amlygu gan y bwrdd iechyd fel meysydd i'w gwella a bod camau'n cael eu cymryd i ddarparu gorchudd llawr newydd a gwelyau archwilio mwy priodol.

Atal a rheoli heintiau

Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro plastig er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd yr ardaloedd triniaeth glinigol a welsom yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y manau clinigol a chyfleusterau toiled. Roedd digon o hylif dadheintio dwylo ar gael o amgylch y practis.

Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes y gellid ei gasglu'n ddiogel. Roedd contract ffurfiol ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff.

Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw fân lawdriniaethau'n cael eu cynnal yn y practis.

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gyfrifol am gynnal asesiad o'u hamgylchedd gwaith eu hunain er mwyn rheoli risgiau heintiau. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau'n ddiweddar, bod meysydd i'w gwella wedi'u nodi, a bod camau gweithredu wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r problemau a amlygwyd.

Roedd rheolwr y practis yn cadw cofrestr o statws imiwneiddio Hepatitis B y staff. Roedd hyn yn dangos bod system briodol ar waith i sicrhau bod staff a chleifion yn cael eu diogelu rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Rheoli meddyginiaethau

Canfuom fod systemau rheoli meddyginiaeth yn dda, yn ddiogel, ac yn unol â llyfr fformiwlâu a chanllawiau rhagnodi'r bwrdd iechyd.

Gallai'r cleifion gael mynediad at bresgripsiynau amlroddadwy trwy alw yn y feddygfa'n bersonol, ar-lein, neu drwy asiantaethau eraill megis y fferyllfa leol.

Roedd unrhyw ymholiadau ynglŷn â meddyginiaeth yn cael eu cofnodi ar y system gyfrifiadur ac yn cael eu hadolygu gan un o'r meddygon.

Mae fferylllydd a thechnegydd fferyllol a gyflogir gan y bwrdd iechyd yn ymweld â'r feddygfa bob wythnos i gynorthwyo staff ag ymholiadau ac archwiliadau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Canfuom fod polisi amddiffyn plant a pholisi diogelu oedolion ar waith ynghyd â siartiau llif, a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt lleol ar gyfer hysbysu am unrhyw bryderon.

Roedd un o'r meddygon teulu'n ysgwyddo rôl arweiniol ar gyfer y gwaith o ddiogelu oedolion a phlant o fewn y practis, ac roedd wedi derbyn hyfforddiant ar y pwnc ar lefel briodol. Canfuom hefyd fod holl aelodau eraill y staff wedi derbyn hyfforddiant hyd at Lefel 2 mewn diogelu oedolion a phlant. Gwnaethom dynnu sylw at yr angen i'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant diogelu Lefel 3.

Caiff achosion diogelu plant ac oedolion eu hamlygu ar y system cofnodion electronig fel bod y staff yn ymwybodol o broblemau o'r fath.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant diogelu Lefel 3.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Fodd bynnag, nid oedd yn glir sut yr ymdriniwyd â digwyddiadau ac achosion o bwys, ac nid oedd fawr o dystiolaeth o ran sut y trosglwyddwyd yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau o'r fath i'r staff. Dywedwyd wrthym y byddai'r rheolwr practis yn rhoi sylw i'r mater hwn ar frys.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad ac roeddem yn gallu cadarnhau bod staff yn cael eu hannog a'u grymuso i leisio unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch diogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.

Gwelsom fod angen i ffurfioli ac egluro'r cyfrifoldebau o ran arweinyddiaeth glinigol ar gyfer monitro salwch cronig, oherwydd roedd y trefniadau wedi mynd braidd yn aneglur ers i'r bwrdd iechyd gymryd drosodd y gwaith o reoli'r practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau ac achosion o bwys, a sicrhau bod yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau o'r fath yn cael ei drosglwyddo i'r staff.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ffurfioli ac egluro'r cyfrifoldebau o ran arweinyddiaeth glinigol ar gyfer monitro salwch cronig.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gan y bwrdd iechyd bolisiau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer llywodraethu gwybodaeth.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a ddewiswyd ar hap a gweld bod safon y gwaith o gadw cofnodion yn dda.

Roedd y nodiadau'n cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng staff clinigol a chleifion, ac roedd hi'n bosibl pennu canlyniad yr ymgynghoriadau a'r cynllun gofal ar gyfer y claf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y practis ar ganol addasu i'r newidiadau yn y strwythur rheoli ar ôl dod o dan reolaeth y bwrdd iechyd ym mis Tachwedd 2016. Fodd bynnag, canfuwyd y bu dilyniant yn narpariaeth y gwasanaeth yn rhinwedd y ffaith bod rhai o'r partneriaid meddyg teulu wedi aros yn y practis, a bod y cynorthwydd gofal iechyd wedi cymryd y swydd rheolwr practis dros dro hyd nes penodi olynydd parhaol.

Roedd yn gadarnhaol nodi nad oedd y newidiadau o ran rheolwyr y practis wedi cael effaith andwyol ar ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd.

Canfuom dîm staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac a ddywedodd wrthym eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan gydweithwyr yn y practis. Roedd y staff hefyd yn gadarnhaol am y cyfleoedd hyfforddiant oedd ar gael.

Canfuom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen, cyn i bobl ddechrau gweithio yn y feddygfa.

Roedd systemau archwilio clinigol a chyffredinol ar waith a oedd yn caniatáu i staff fyfyrion a gwneud newidiadau a gwelliannau i'w harfer. Fodd bynnag, canfuom fod angen ffurfioli rhai elfennau o'r prosesau llywodraethu ac archwilio clinigol i nodi'n glir p'un ai cyfrifoldeb staff y practis yw rhai cyfrifoldebau penodol, neu rai'r bwrdd iechyd. At hynny, dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau o ran practisau a reolir, ac ystyried a oes angen gwahanu'r swyddi comisiynydd a darparwr gwasanaethau gofal sylfaenol ac, ar yr un pryd, sicrhau bod adnoddau teg yn cael eu sicrhau ar gyfer y ddwy swyddogaeth.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Ar y cyfan, canfuom arweinyddiaeth dda ar gyfer y practis a thîm staff sefydlog a oedd yn canolbwyntio ar gleifion ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau a allent ar gyfer eu cleifion. Canfuom fod cefnogaeth

dda'n cael ei rhoi gan dîm rheoli Gofal Sylfaenol a Chomisiynu'r bwrdd iechyd a'r Cyfarwyddwr Meddygol Ardal. Fodd bynnag, canfuom fod angen ffurfioli rhai elfennau o'r prosesau llywodraethu ac archwilio clinigol i nodi'n glir p'un ai cyfrifoldeb staff y practis yw rhai cyfrifoldebau penodol, neu gyfrifoldeb aelodau o dîm rheoli'r bwrdd iechyd.

Roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent leisio pryderon wrth uwch staff.

Roedd y staff yn gallu cael mynediad i safle mewnwyd y bwrdd iechyd, a oedd yn cynnwys yr holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol i arwain y staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Yn aml, roedd staff a oedd yn gweithio yn y practis yn ymgymryd â rolau deuil ac yn gweithio'n hyblyg. Roedd hyn yn golygu bod staff yn gallu cyflenwi dros ei gilydd yn ystod absenoldebau, gan leihau'r risg o amharu ar wasanaethau i gleifion.

Roedd diwylliant agored a chynhwysol yn y practis gyda thystiolaeth bod cyfathrebiadau anffurfiol yn digwydd yn rheolaidd rhwng aelodau staff. Gwnaethom amlygu bod angen dull mwy ffurfiol mewn perthynas â chyfarfodydd y meddygon teulu ac adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n gywir i adlewyrchu trafodaethau a gafwyd, yr hyn a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau diweddar o ran rheolwyr y practis.

Dywedwyd wrthym fod un o'r meddygon teulu a'r rheolwr practis dros dro wedi mynychu cyfarfod clwstwr diweddar ac yn defnyddio'r fforwm hwn fel modd o gynhyrchu gweithgareddau gwella ansawdd a rhannu arfer da.

Canfuom fod cynllun 'adfer ar ôl trychineb' cadarn ar waith, a oedd yn cynnwys digwyddiadau megis achosion pandemig/epidemig, tân, llifogydd, a phroblemau TG.

Gwelsom hefyd fod cynllun datblygu practis ar waith. Cafodd y cynllun ei lunio ym mis Mehefin 2016, cyn i'r bwrdd iechyd gymryd drosodd y gwaith o reoli'r practis. O ganlyniad, mae'n bosib bod angen adolygu'r cynllun datblygu practis erbyn hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ffurfioli'r prosesau llywodraethu ac archwilio clinigol i nodi'n glir p'un ai cyfrifoldeb staff y practis yw rhai cyfrifoldebau penodol, neu gyfrifoldeb aelodau o dîm rheoli'r bwrdd iechyd.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau o ran practisau a reolir, ac ystyried a oes angen gwahanu'r swyddi comisiynydd a darparwr gwasanaethau gofal sylfaenol ac, ar yr un pryd, sicrhau bod adnoddau teg yn cael eu sicrhau ar gyfer y ddwy swyddogaeth.

Dylid ffurfioli cyfarfodydd meddyg teulu ac adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n briodol i adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd, yr hyn a ddysgwyd, a'r camau a gymerwyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau diweddar o ran rheolwyr y practis.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu cynllun datblygu'r practis i sicrhau ei fod yn adlewyrchu nodau ac amcanion y bwrdd iechyd ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Dangosodd trafodaethau â'r staff ac adolygiad o sampl o gofnodion staff eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu swyddogaethau penodol yn y practis.

Roedd y staff yn gallu disgrifio'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, a gwnaethant ddweud eu bod yn hapus yn eu swyddi. Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Canfuwyd nad oedd arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal yn rheolaidd, a dywedwyd wrthym y byddai rhaglen ffurfiol o arfarniadau staff yn cael ei llunio gan y rheolwr practis sydd newydd ei benodi.

Canfuom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen, cyn i bobl ddechrau gweithio yn y feddygfa.

Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Roedd y nyrs practis wrthi'n cwblhau cwrs ymarferydd nyrsio uwch.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol yn glŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae arolygiadau fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr practisau ar ddiwedd yr arolygiad, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau meddygon teulu yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir mwy o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Lllys Meddyg, Conwy

Dyddiad yr arolygiad: 10/04/17

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad ei bod yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Clare Darlington

Enw (llythrennau bras): Clare Darlington

Swydd: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a Chomisiynu

Dyddiad: 2 Mehefin 2017

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Llys Meddyg, Conwy

Dyddiad yr arolygiad: 10/04/17

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid adolygu gwefan y practis a'r daflen i gleifion er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth am hybu iechyd ac adlewyrchu'r newidiadau yn y tîm staff.	4.2 Gwybodaeth am gleifion	Bydd adolygiad llawn o gynnwys y wefan a'r daflen wybodaeth i gleifion gan adlewyrchu'r newidiadau o ran staff a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y practis.	Rheolwr y Practis	30 Medi 2017
Dylai'r practis annog cleifion i gofrestru a defnyddio Fy Iechyd Ar-lein, gan nodi aelod(au) o staff i hyrwyddo'r gwasanaeth. Byddai hyn yn helpu i ysgafnhau'r pwysau o ran trefnu apwyntiadau ar y ffôn.	5.1 Mynediad amserol	Bydd taflenni Fy Iechyd Ar-lein yn cael eu rhoi i bob claf newydd sy'n cofrestru gyda'r feddygfa ac yn cael eu cynnwys gyda'r ffurflenni cofrestru. Bydd Fy Iechyd Ar-lein yn cael ei hyrwyddo trwy ddefnyddio hysbysfwrdd penodol i gleifion. Bydd yr hysbysfwrdd hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu	Rheolwr y Practis	31 Awst 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwybodaeth benodol i gleifion, a bydd yn cael ei newid yn rheolaidd i roi gwybodaeth berthnasol i gleifion yn ei dro.</p> <p>Bydd taflenni Fy Iechyd Ar-lein ar gael yn y dderbynfa ac yn ystafelloedd aros y feddygfa.</p> <p>Byddwn yn defnyddio ochr dde presgripsiynau cleifion i hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein, a byddwn hefyd yn diweddarau'r wefan a'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein.</p>		
<p>Dylai'r practis ystyried sefydlu grŵp cyfranogiad cleifion fel modd ychwanegol o gasglu adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Gallai hyn weithredu hefyd fel system ar gyfer rhannu gwybodaeth am gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>6.3 Gwranddo a dysgu o adborth</p>	<p>Bydd y bwrdd iechyd yn ymgysylltu'n weithredol â chleifion trwy'r holiadur cleifion blynyddol, a fydd yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr hydref. Bydd yr holiadur yn gofyn am farn cleifion o ran beth yw'r ffordd orau o gael adborth gan gleifion trwy roi set o ddewisiadau ticio blwch yn yr holiadur, a fydd yn cynnwys y dewis i gymryd rhan mewn grŵp cyfranogiad cleifion neu systemau eraill.</p>	<p>Rheolwr y Practis Swyddog Ymgysylltu'r Tîm Ardal</p>	<p>31 Hydref 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant diogelu Lefel 3.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Bydd y bwrdd iechyd yn canfod hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol ac yn sicrhau bod staff ar gael wrth gefn i gyflenwi i alluogi'r staff i fynychu'r hyfforddiant. Oherwydd natur y gwasanaeth, bydd rhaid darwahanu'r hyfforddiant dros nifer o ddyddiadau i sicrhau dilyniant y gwasanaeth.	Rheolwr y Practis Clinigwyr	31 Rhagfyr 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau clir ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau ac achosion o bwys, a sicrhau bod yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau o'r fath yn cael ei drosglwyddo i'r staff.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Bydd y bwrdd iechyd yn defnyddio Datix i gofnodi digwyddiadau o bwys. Bydd adroddiad yn cael ei lunio'n rheolaidd i nodi themâu a bydd y rhain yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd practis. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gyfarwyddwr Clinigol Practisau a Reolir ac i Reolwr Busnes Practisau a Reolir, ac yn cael ei adrodd trwy Fwrdd Rheoli Gweithredol Practisau a Reolir.	Rheolwr y Practis Cyfarwyddwr Clinigol Practisau a Reolir Rheolwr Busnes Practisau a Reolir Holl staff	Parhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd ffurfioli ac egluro'r cyfrifoldebau o ran arweinyddiaeth glinigol ar gyfer monitro salwch cronig.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	<p>Mae'r bwrdd iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Clinigol Practisau a Reolir yn ddiweddar ac, ar hyn o bryd, mae'n recriwtio Rheolwr Busnes Practisau a Reolir.</p> <p>Mae'r strwythur adrodd prosesau llywodraethu ar gyfer staff nyrsio mewn practisau a reolir wedi'i gytuno ar lefel ranbarthol trwy Grŵp Llywodraethu ac Atebolrwydd y bwrdd iechyd ar gyfer Practisau a Reolir, ac mae'n aros am gymeradwyaeth bellach o fewn strwythur llywodraethu ffurfiol y bwrdd iechyd.</p> <p>Bydd y strwythurau adrodd prosesau llywodraethu ar gyfer grwpiau proffesiynol eraill yn cael eu datblygu a'u cyflwyno trwy'r strwythur llywodraethu ffurfiol i'w cymeradwyo.</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol Ardal</p> <p>Y Prif Fferylllydd</p> <p>Nyrs Arwain ar gyfer Gofal Sylfaenol yr Ardal Ganolog</p> <p>Rheolwr Busnes Practisau a Reolir</p>	31 Rhagfyr 2017
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ffurfioli'r prosesau llywodraethu ac archwilio clinigol i nodi'n	Llywodraethu, arweinyddiaeth	Bydd proses llywodraethu ac archwilio clinigol yn cael ei datblygu yn unol â'r	Cyfarwyddwr Clinigol Practisau	Parhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
glir p'un ai cyfrifoldeb staff y practis yw rhai cyfrifoldebau penodol, neu gyfrifoldeb aelodau o dîm rheoli'r bwrdd iechyd.	ac atebolrwydd	strwythurau adrodd prosesau llywodraethu a fydd yn cael eu datblygu (fel yr uchod).	a Reolir	
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau o ran practisau a reolir, ac ystyried a oes angen gwahanu'r swyddi comisiynydd a darparwr gwasanaethau gofal sylfaenol ac, ar yr un pryd, sicrhau bod adnoddau teg yn cael eu sicrhau ar gyfer y ddwy swyddogaeth.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Bydd penodi'r Rheolwr Busnes a'r Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Practisau a Reolir yn cefnogi'r bwrdd iechyd yn ei rôl fel darparwr a chomisiynydd. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg.	Tîm Ardal Cyfarwyddwr Clinigol Practisau a Reolir Rheolwr Busnes Practisau a Reolir	Parhaus
Dylid ffurfioli cyfarfodydd meddyg teulu ac adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cofnodi'n briodol i adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd, yr hyn a ddysgwyd, a'r camau a gymerwyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau diweddar o ran rheolwyr y practis.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Bydd y Cyfarwyddwr Clinigol a'r Nyrs Arwain yn gweithredu rhaglen archwilio ac adolygu ar draws y grwpiau proffesiynol yn y practis. Bydd sesiynau goruchwyllo rheolaidd yn cael eu rhoi ar waith gyda'r arweinydd clinigol a gweithredol ar gyfer practisau a reolir.	Rheolwr y Practis Nyrs Arwain ar gyfer Gofal Sylfaenol Cyfarwyddwr Clinigol Practisau a Reolir Rheolwr Busnes Practisau a Reolir	Parhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu cynllun datblygu'r practis i sicrhau ei fod yn adlewyrchu nodau ac amcanion y bwrdd iechyd ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Bydd cynllun datblygu practis tair blynedd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn diwedd mis Mehefin, ac yn cael ei weithredu yn unol â gofynion y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF).	Rheolwr y Practis	30 Mehefin 2017
Dylai'r bwrdd iechyd sefydlu rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff.	7.1 Y gweithlu	Cynhaliwyd y rhan fwyaf o arfarniadau blynyddol yn ystod Hydref 2016. Bydd rhaglen o arfarniadau'n cael ei llunio ar gyfer pob aelod o'r staff.	Rheolwr y Practis Cyfarwyddwr Clinigol Practisau a Reolir Nyrs Arwain ar gyfer Gofal Sylfaenol	31 Hydref 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Clare Darlington

Enw (llythrennau bras): Clare Darlington

Swydd: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a Chomisiynu

Dyddiad: 2 Mehefin 2017